Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton
Heol Pont Siôn Norton
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf
CF37 4ND

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2014

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/12/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton rhyw ddwy filltir i'r gogledd ddwyrain o dref Pontypridd ger pentref Cilfynydd. Cafodd yr ysgol ei sefydlu ym 1951 a'r awdurdod lleol yw Rhondda Cynon Taf

Mae'r dalgylch yn cynnwys pentref Cilfynydd ac ardaloedd Trallwng, Y Comin, Ynysybwl, Coed y Cwm a Glyncoch.

Ar hyn o bryd, mae 275 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 43 plentyn meithrin amser llawn. Cânt eu haddysgu mewn naw dosbarth. Mae un o'r rhain yn ddosbarth ar gyfer plant oed meithrin ac mae dau ddosbarth yn cynnwys disgyblion o oed cymysg. Daw 2.9% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd ac mae tua 2% o gefndir lleiafrifol ethnig neu gymysg.

Tua 18% sy'n gymwys i dderbyn prydau bwyd am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (21%). Mae tua 50 disgybl (15%) wedi eu nodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (22%). Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol.

Gan gynnwys y pennaeth, mae wyth o athrawon amser llawn, a dau sy'n gweithio'n rhan amser. Caiff y dosbarth meithrin ei addysgu gan gynorthwyydd lefel uwch.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Rhagfyr 2009. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ebrill 2014, yn dilyn ymddiswyddiad y pennaeth blaenorol yn Hydref 2013. Bu dau bennaeth dros dro yn arwain yr ysgol rhwng Hydref 2013 ac Ebrill 2014.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Pont Siôn Norton yn 2014-2015 yw £2,926. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £5,513 a'r lleiafswm yw £2,514. Mae Ysgol Pont Siôn Norton yn safle 92 o'r 110 ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyffredinol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod safonau gwaith disgyblion yn eu gwersi a'u llyfrau cyfredol yn dangos cynnydd priodol;
- bod disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd;
- bod disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur ac yn datblygu geirfa gynyddol gyfoethog, yn bynciol ac yn gyffredinol;
- bod ymddygiad bron pob disgybl yn gyson dda iawn yn ystod gwersi ac ar adegau eraill;
- bod yr ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion; ac
- yn gyffredinol, mae'r athrawon yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig mewn pynciau ar draws y cwricwlwm;
- er bod cynlluniau gwaith cadarn yn bodoli erbyn hyn, sy'n rhoi sylw priodol i ddatblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm, mae'n rhy gynnar i weld effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion yn y tymor hir; ac
- mae peth anghysondeb yn y ffordd mae asesu ar gyfer dysgu'n cael ei weithredu ar draws yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth wedi llwyddo i rannu ei ddisgwyliadau uchel yn eglur gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion mewn amser byr;
- bod rhaglen fonitro, gwerthuso ac adolygu fanwl wedi sicrhau gwelliant mewn ansawdd cynllunio athrawon ac wedi sicrhau bod safon gwaith disgyblion yn eu llyfrau cyfredol yn dechrau gwella;
- bod proses ac adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn; a
- bod yr adroddiadau monitro diweddar yn dangos yn gywir beth yw cryfderau'r ysgol ac yn nodi camau gwella yn glir.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau mathemategol disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen

A2 Gwella safonau disgyblion cyfnod allweddol 2 ar draws y cwricwlwm

A3 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ysgrifennu'n estynedig mewn meysydd ar draws y cwricwlwm

A4 Sicrhau gweithgarwch â her briodol ar gyfer y disgyblion uchaf eu gallu

A5 Sicrhau bod arferion gorau asesu ar gyfer dysgu'n cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol

A6 Datblygu rôl y llywodraethwyr wrth herio'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel yn y gwersi ac yn eu llyfrau cyfredol. Maent yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol effeithiol ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd wrth drafod eu gwaith a datblygu eu medrau meddwl.

Erbyn hyn, mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar fedrau rhifedd a llythrennedd Cymraeg a Saesneg sy'n gymwys i'w hoed a'u gallu. Mae gallu disgyblion i drin a defnyddio rhif yn dangos cynnydd priodol drwy'r ysgol a gwnânt ddefnydd priodol o fedrau rhifedd yn eu gwaith mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Mae medrau llafar disgyblion drwy'r ysgol yn dangos cynnydd da iawn, ac mae eu medrau darllen yn gymwys i'w hoed a'u gallu. Er hyn, mae eu medrau darllen yn gryfach yn Saesneg nag ydynt yn y Gymraeg. Mae gallu disgyblion i lunio darnau ysgrifennu estynedig mewn gwersi iaith yn datblygu'n dda, yn arbennig erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddigon estynedig yn y Gymraeg na'r Saesneg mewn pynciau eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle nad ydynt yn siarad Cymraeg, maent bron i gyd yn llwyddo i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar mewn pob sefyllfa o oed cynnar iawn. Maent yn siarad Cymraeg ar bob achlysur ac yn datblygu geirfa gynyddol gyfoethog, yn bynciol ac yn gyffredinol. Maent yn ymfalchïo yn eu Cymreictod. Mae hwn yn gryfder amlwg yn yr ysgol.

Ac eithrio datblygiad mathemategol, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol dda ac yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaleddau'r teulu a Chymru dros dair blynedd. Yn 2014, o'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau am ddim, mae datblygiad iaith a llythrennedd (Cymraeg) y disgyblion ymhlith yr 50% uwch ac yn dangos tuedd ar i fyny. Mae datblygiad mathemategol y disgyblion ymhlith y 25% isaf ac wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Dros gyfnod o bedair blynedd, mae'r tueddiadau ym mherfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn anghyson ac nid yw'n dangos cynnydd priodol yn y pynciau craidd. Bu canlyniadau Cymraeg a Saesneg yr ysgol yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru am dair o'r pedair blynedd. Bu canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth yn is na'r cyfartaleddau teulu a Chymru am ddwy o'r tair blynedd. Yn 2014, o'i chymharu ag ysgolion tebyg, mae'r ysgol ym mhlith y 25% isaf yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

O safbwynt cyraeddiadau ar y lefelau uwch, mae'r ysgol yn gyson is na'r cyfartaleddau teulu a Chymru yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Nid oes patrwm clir o wahaniaeth rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau am ddim a'r gweddill yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae tuedd gyffredinol i ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau am ddim gyflawni'n sylweddol is na'r gweddill. Fodd bynnag, gan mai ychydig o ddisgyblion yn unig oedd yn gymwys i dderbyn prydau am ddim o fewn y carfanau asesu diweddar, rhaid cymryd gofal wrth ddod i gasgliadau.

Dros gyfnod o dair blynedd yn y Cyfnod Sylfaen a phedair blynedd yng nghyfnod allweddol 2, nid oes patrwm clir o wahaniaeth rhwng perfformiad y bechgyn o gymharu â'r merched.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol tuag at gyrraedd eu targedau unigol.

**Lles: Da**

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn gyson dda iawn. Dangosant barch a gofal tuag at eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac yn dangos lefel dda o ddyfalbarhad yn y gwersi, gan adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Mae gallu'r mwyafrif i weithio'n annibynnol yn datblygu'n dda ac mae llawer o'r disgyblion hŷn yn ofalgar wrth ymdrin â phlant eraill.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth briodol o'r angen i ddatblygu arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd, yfed a bwyta'n iach. Maent yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Mae'r cyngor ysgol yn cynnwys grŵp brwdfrydig o ddisgyblion sydd wedi cyfrannu'n effeithiol at wella ardaloedd oddi mewn a thu allan i'r ysgol. Mae'n bwyllgor sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn sicrhau bod gan ddisgyblion ffyrdd effeithiol o leisio barn. Mae'r gwaith i ddatblygu'r ardal tu allan wedi arwain at greu partneriaeth effeithiol a defnyddiol gyda phwyllgor ffrindiau'r ysgol.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned a cheir cyswllt cryf gyda llawer o sefydliadau ac unigolion lleol. Enghraifft o hyn yw'r ymweliadau cyson i gynnal gwasanaethau yn y capel. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o'r profiadau hyn ac yn datblygu ystod briodol o fedrau cymdeithasol a moesol.

Mae canran presenoldeb y disgyblion ychydig o dan 95% ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf ac yn dangos cynnydd cyson dros dair blynedd. Mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf, roedd cyfartaledd presenoldeb yr ysgol yn yr 50% uwch o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Erbyn hyn, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r cynlluniau gwaith yn ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gadarn. Maent yn cynnwys cyfleoedd priodol i ddatblygu'r medrau allweddol, ac yn ymgorffori gofynion y

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddewis pa agweddau i'w hastudio ac, o ganlyniad, maent yn teimlo perchnogaeth dros eu gwaith thema. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a chlybiau ar ôl ysgol sy'n cyfoethogi eu datblygiad diwylliannol a hybu gweithgarwch corfforol, er enghraifft y clwb rygbi a'r clwb celf.

Yn ddiweddar, mae'r athrawon wedi cydweithio i greu cynllun ysgol gyfan sy'n mapio gwahanol fathau o ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Serch hynny, mae'n rhy gynnar i weld effaith hwn ar ddeilliannau disgyblion yn y tymor hir.

Rhoddir lle amlwg iawn yn rhaglen waith yr ysgol i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn gwersi hanes rhoddir sylw da i bobl a digwyddiadau yn hanes Cymru. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o Gymreictod ei hyrwyddo'n effeithiol iawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu disgyblion am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol. Mae pwyllgor eco'r ysgol wedi trefnu gweithgareddau ailgylchu, tacluso sbwriel ac arwain gwasanaeth ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth disgyblion eraill o'u cyfrifoldeb wrth edrych ar ôl eu hamgylchedd.

Mae cyfleoedd da i'r disgyblion gyfrannu yn eu cymuned ac yn genedlaethol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol, er enghraifft gweithgareddau'r Urdd, cyngherddau lleol a digwyddiadau yn y capel. Mae hyn yn gymorth iddyn nhw ddeall eu rôl o fewn y gymuned ac i werthfawrogi'r ardal y maen nhw'n rhan ohoni.

**Addysgu: Da**

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae cyflwyniadau a chyfarwyddiadau'r athrawon yn glir, ac mae strwythurau cadarn yn sicrhau bod disgyblion yn medru ymateb yn llwyddiannus ac yn annibynnol i'w tasgau. Mae cyflymder yr addysgu yn effeithiol ac mae'r athrawon a chynorthwywyr yn cynnal disgyblion mewn modd sy'n hybu'r dysgu yn dda. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gadarn iawn, ac maent yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol. Mae'r staff yn fodelau iaith da ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion yn efelychu a defnyddio patrymau iaith yn effeithiol ac yn hyderus. Mae'r athrawon i gyd yn deall anghenion eu disgyblion yn dda. Maent yn sicrhau bod ganddynt weithgareddau addas ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, mewn llawer o wersi, nid ydynt yn darparu digon o weithgareddau sy'n herio disgyblion uchaf eu gallu i'r safon briodol.

Yn yr ychydig iawn o wersi lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r disgwyliadau'n ddigon eglur ac mae tuedd i roi gormod o gyfarwyddiadau, sy'n cyfyngu ar allu disgyblion i weithio'n annibynnol.

Mae'r athrawon i gyd yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu gwersi. Maent yn gosod meini prawf llwyddiant ac yn defnyddio canmoliaeth yn dda

iawn i annog y disgyblion llai hyderus.  Mae'r disgyblion yn elwa o'r ffaith fod eu hathrawon yn trafod ansawdd eu gwaith gyda nhw mewn modd sensitif ac adeiladol.

Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac mae'r athrawon yn rhoi sylwadau adeiladol ar fwyafrif yr ymdrechion.  Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn cael eu herio i wella eu gwaith eu hunain ar ôl derbyn sylwadau gan yr athrawon.

Mae gan yr ysgol systemau clir ar gyfer asesu cynnydd ac olrhain cynnydd disgyblion gan ddefnyddio profion safonol, asesiadau athrawon a rhaglen electronig briodol.

Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn llawn gwybodaeth.  Mae rhieni a gofalwyr yn teimlo'u bod yn cael gwybodaeth dda iawn am gynnydd eu plant**.**

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  Mae ystod eang a rheolaidd o fentrau priodol sy'n annog hyn, yn ogystal â chyfleoedd eang i hybu ymarfer corfforol.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar gynhwysiant a sicrhau lles disgyblion.  Mae cyfundrefnau cynnal a gwella presenoldeb a phrydlondeb yn gadarn ac wedi arwain at welliant yn y meysydd hyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf.  Caiff datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion ei gefnogi'n effeithiol trwy wasanaethau dosbarth ac ysgol gyfan, ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da a datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion.  Gwneir defnydd priodol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol ac mae'r disgyblion yn elwa o'r gynhaliaeth hon.  Mae'r staff yn monitro lles disgyblion yn dda iawn, ac yn gweithredu'n gyflym ac yn sensitif mewn ymateb i bryderon.  Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.  Mae'r disgyblion a rhieni yn teimlo'n hyderus i gysylltu ag aelodau staff os oes angen cyngor ac arweiniad arnynt.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi ei sefydlu a'i gweithredu yn lled effeithiol ar gyfer mwyafrif y disgyblion sydd ei hangen.  Mae anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae cynlluniau priodol yn cael eu darparu er mwyn ceisio mynd i'r afael ag anghenion penodol unigolion.  Mae'r broses hon yn cynnwys y rhieni a'r plentyn yn effeithiol.  Mae map darpariaeth ar gyfer pob dosbarth yn ceisio sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion unigolion, ac yn eu cynorthwyo i baratoi rhaglenni addysgu priodol ar eu cyfer.  Mae'r cynorthwywyr yn cyfrannu'n effeithiol at gyfoethogi profiadau dysgu a lles cyffredinol y disgyblion.  Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer herio disgyblion gallu uwch wedi eu datblygu'n briodol nac eto wedi cael effaith ddigonol ar eu deilliannau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynnes ble mae'r disgyblion yn mwynhau eu profiadau addysgol.  Rheolir ymddygiad da'r disgyblion yn effeithiol drwy feithrin ethos sy'n hynod o ofalgar a chadarnhaol.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod gan bob disgybl hawl gyfartal i holl ddarpariaeth y cwricwlwm a cheir cyflenwad o adnoddau sy'n gweddu'n dda ar y cyfan i anghenion y disgyblion.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn lliwgar, yn symbylus ac yn ysgogi'r dysgu'n effeithiol. Mae'r arddangosfeydd o waith y disgyblion yn ennyn eu balchder yn eu gwaith yn ogystal â chefnogi eu dysgu.

Er bod yr adeilad yn hen a bod cyfyngiadau amlwg i'r safle, mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae staff yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau sydd ar gael, y tu mewn a'r tu allan, i gefnogi'r dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mewn amser byr ers ei benodiad, mae'r pennaeth wedi llwyddo i rannu ei ddisgwyliadau uchel yn effeithiol gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion. Gyda chefnogaeth y dirprwy a'r uwch dîm rheoli mae wedi gosod blaenoriaethau clir ar gyfer datblygu'r ysgol. Mae'n cydweithio'n effeithiol â'r staff i gyd i greu amgylchedd cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar godi safonau. Mae'r pennaeth a'r staff wrthi'n adolygu disgrifiadau swyddi'n derfynol ar hyn o bryd, ac mae gan bawb ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau.

Yn dilyn cyfnod o newid sylweddol yn sefyllfa staffio'r ysgol, mae'r uwch dîm rheoli wedi rhoi strategaethau ar waith i wella safonau gwaith disgyblion. Maent wedi llunio rhaglen monitro, gwerthuso ac adolygu fanwl sy'n gysylltiedig â'r cynllun gwella ysgol. Mae'r rhain wedi sicrhau gwelliant mewn ansawdd cynllunio athrawon a datblygu eu dealltwriaeth o ddata cyrhaeddiad yr ysgol. Maent hefyd wedi sicrhau bod safon gwaith disgyblion yn eu llyfrau cyfredol yn dechrau gwella. Fodd bynnag mae hi'n rhy gynnar i weld effaith arwyddocaol hyn ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn dechrau defnyddio data yn fwy ystyrlon, ac yn cryfhau eu cyfrifoldebau monitro. Mae hyn yn eu helpu i adnabod yr angen i godi safonau, ond nid ydynt wedi datblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn ddigonol eto.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Erbyn hyn, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu'n llwyddiannus. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn lled weithredol yn yr ysgol, ac mae'r staff yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn eu cynllunio yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses ac adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Mae gan yr athrawon, y staff cynorthwyol a'r llywodraethwyr wybodaeth dda am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r broses yn cynnwys adolygiad priodol o agweddau ar fywyd yr ysgol a sut mae'r rhain yn effeithio ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer casglu barn rhieni a'r disgyblion trwy holiaduron ac mae'n rhoi ystyriaeth addas i'w sylwadau ac awgrymiadau.

Mae trefniadau monitro'r ysgol yn datblygu'n effeithiol ac yn cyfrannu'n briodol at y broses hunanarfarnu. Y pennaeth sy'n bennaf gyfrifol am fonitro gwaith yr ysgol ac mae rôl y cydlynwyr wrth fonitro ansawdd yr addysgu a chraffu ar waith y disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae'r adroddiadau monitro diweddar yn dangos yn gywir beth yw cryfderau'r ysgol ac yn nodi'r camau gwella yn glir.

Mae data perfformiad yn cael ei ddefnyddio yn rheolaidd ac effeithiol i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella. Mae cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau. Mae'r athrawon yn deall y rhesymau sy'n sail i'r blaenoriaethau ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb wrth eu gweithredu. Mae'r cynllun wedi ei gostio'n ofalus ac mae'r amserlen weithredu a chyfrifoldebau staff yn glir ac yn ymarferol. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni priodol ar gyfer eu cwblhau. Mae trefniadau cynhwysfawr yn eu lle i arfarnu gwelliant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth effeithiol gyda rhieni. Mae'r pennaeth a'r staff yn cyfathrebu'n glir gyda nhw, ac maent hwythau yn gefnogol iawn i waith a bywyd yr ysgol. Enghraifft dda o'r cydweithio llwyddiannus yw'r gwaith a gyflawnwyd eisoes ar agweddau o amgylchedd yr ysgol, a'r cynllun ar gyfer datblygu ardal allanol y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda chylchoedd meithrin yr ardal i sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth meithrin. Mae ystod ac ansawdd y trefniadau trosglwyddo disgyblion hŷn i'r ysgol uwchradd yn dda. Maent yn eu paratoi'n drylwyr at y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion cynradd eraill i sicrhau cymedroli asesiadau athrawon o waith disgyblion cyfnod allweddol 2. O ganlyniad i hyn, mae asesiadau athrawon wedi cryfhau ac maent yn gadarn.

Mae perthynas dda gyda'r awdurdod a'r consortiwm lleol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd disgyblion, er enghraifft cefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda llawer o asiantaethau yn y gymuned a busnesau lleol i gyfoethogi cwricwlwm yr ysgol a chodi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hardal.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth ei dîm arwain, yn rheoli adnoddau'r ysgol yn effeithiol. Mae'n lleoli staff addysgu a chynorthwyo'n fedrus er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u harbenigedd a'u profiad. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfnodau

cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi'i threfnu'n dda, ac mae athrawon yn defnyddio'r cyfleoedd hyn yn bwrpasol.

Mae'r pennaeth, gyda chymorth swyddog yr awdurdod lleol, yn rheoli gwariant cyllid yn ofalus, er mwyn cefnogi blaenoriaethau'r ysgol. Mae hefyd yn cynllunio'n effeithiol y defnydd o ystod o gronfeydd, gan gynnwys y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant y Gymraeg mewn Addysg i sicrhau gwelliant yn narpariaeth yr ysgol ac yng nghyrhaeddiad disgyblion. Cynllunia'r defnydd o Grant Amddifadedd Disgyblion yn briodol i sicrhau effaith uniongyrchol ar ddeilliannau'r disgyblion perthnasol. Mae'r disgyblion i gyd yn elwa ar lefel uchel o adnoddau dysgu diddorol, ac amgylchfyd dysgu symbylus.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol o fewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol gyda grŵp o ysgolion i wella darpariaeth addysgol. Enghraifft o hyn yw cydweithio ar hyfforddi athrawon i addysgu rhifedd.

O ystyried y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perffordmiad

**6742216 - Y.G.G.PONTSIONNORTON**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 258 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 17.4 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 29 | 30 | 29 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 69.0 | 86.7 | 82.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 29 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 79.3 | 86.7 | 93.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 10.3 | 33.3 | 24.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 29 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 86.2 | 86.7 | 82.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 13.8 | 36.7 | 24.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 29 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 79.3 | 93.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 73.3 | 34.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6742216 - Y.G.G.PONTSIONNORTON**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 258 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 17.4 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 20 | 32 | 27 | 23 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 75.0 | 53.1 | 88.9 | 69.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 32 | 27 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 75.0 | 53.1 | 88.9 | 69.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 25.0 | 25.0 | 25.9 | 21.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 32 | 27 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 75.0 | 53.1 | 88.9 | 69.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 20.0 | 15.6 | 25.9 | 21.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 32 | 27 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 90.0 | 68.8 | 92.6 | 78.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 35.0 | 18.8 | 33.3 | 17.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 32 | 27 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 90.0 | 68.8 | 92.6 | 78.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 35.0 | 21.9 | 33.3 | 17.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 104 | 100<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 102 | 83<br>81%<br>92% | 19<br>19%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 103 | 98<br>95%<br>97% | 5<br>5%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 104 | 98<br>94%<br>97% | 6<br>6%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 104 | 84<br>81%<br>96% | 20<br>19%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 104 | 95<br>91%<br>96% | 9<br>9%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 104 | 103<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 104 | 98<br>94%<br>98% | 6<br>6%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 104 | 93<br>89%<br>91% | 11<br>11%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 104 | 79<br>76%<br>95% | 25<br>24%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 104 | 75<br>72%<br>77% | 29<br>28%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 101 | 71<br>70%<br>84% | 30<br>30%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 76 | 41 | 35 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 54% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 76 | 53 | 23 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 76 | 49 | 27 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 75 | 38 | 33 | 0 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 51% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 75 | 26 | 43 | 3 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 35% | 57% | 4% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 75 | 35 | 37 | 0 | 0 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 47% | 49% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 75 | 41 | 33 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 55% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 75 | 27 | 37 | 7 | 0 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 36% | 49% | 9% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 75 | 32 | 34 | 4 | 0 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 43% | 45% | 5% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 74 | 38 | 33 | 1 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 51% | 45% | 1% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 76 | 38 | 35 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 50% | 46% | 3% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 72 | 22 | 31 | 4 | 0 | 15 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 31% | 43% | 6% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 74 | 27 | 37 | 8 | 0 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 36% | 50% | 11% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 76 | 42<br>55% | 30<br>39% | 4<br>5% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 75 | 32<br>43% | 26<br>35% | 10<br>13% | 0<br>0% | 7 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 75 | 30<br>40% | 40<br>53% | 1<br>1% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 68 | 14<br>21% | 28<br>41% | 1<br>1% | 0<br>0% | 25 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 74 | 32<br>43% | 38<br>51% | 2<br>3% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 75 | 37<br>49% | 33<br>44% | 1<br>1% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Sara David | Arolygydd Cymheiriaid |
| Duan Evans | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.